

AGENDA

Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am

Eitem 1

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar Ddatblygu Economaidd

Cliciwch [yma](#) i weld y cwestiynau

Eitem 2

Cwestiynau ar Gyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cliciwch [yma](#) i weld y cwestiynau

Eitem 3

Datganiad

Bydd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gwneud datganiad ar y Mesur Addysg

Eitem 4

Dadl ar Ddiwrnod Cenedlaethol Pobl Anabl

NDM912 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol

1. Yn croesawu'r digwyddiad a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2001 i nodi Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl ac yn nodi llwyddiant y digwyddiad a'r cwestiynau a ofynnwyd gan bobl ifanc yn ystod y sesiwn holi.
2. Yn cydnabod rôl bwysig pobl ifanc, ac yn benodol pobl ifanc anabl, o ran datblygu polisi'r Cynulliad; ac
3. Yn nodi yr eir ar drywydd polisi o gynhwysiant ar draws portffolios y Cabinet ac ar sail systematig.

Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:

Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt 4 newydd:

4. Yn derbyn dilysrwydd y model cymdeithasol o anabledd ac yn cydnabod yr angen i gynnwys yr egwyddor hon fel rhan ganolog o bolisiau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Eitem 5

Dadl ar y Cod Ymddygiad Diwygiedig ar Benodiadau Cyhoeddus - *Ni fydd yr eitem yma yn cael ei symud*

Eitem 6

Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru

NDM913 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn nodi lansiad llwyddiannus yr Ewro a'r effaith sylweddol y bydd yr arian sengl yn ei chael ar fywyd gwleidyddol ac economaidd Cymru;

2. Yn nodi'r niwed sydd wedi'i wneud i economi Cymru drwy fod y tu allan i Ardal yr Ewro o ganlyniad i bolisi ariannol ac economaidd Llywodraeth y DU;

3. Yn nodi bwysiced ydyw i'r DU ymuno â'r arian sengl yn ôl cyfradd gyfnewid sy'n ffafriol i Gymru ac i wledydd a rhanbarthau eraill y DU.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i bwysu am weithredu polisi rhanbarthol cadarn a hynny yn Ewrop a'r DU;

5. Yn galw am sicrwydd na chynhelir refferendwm ynghylch ymuno â'r Ewro ar yr un dyddiad ag etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2003.

Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:

Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol

(1)+(3)+(4)+(5)+(8)

1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ym pwynt 1:

Dileu'r gair "llwyddiannus".

2. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) - *Tynnwyd ynol*

Dileu pwynt 2 ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn.

3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ym pwynt 2:

Dileu'r geiriau "niwed sydd wedi'i wneud", ac yn eu lle rhoi "cyfleoedd a gynigir."

Ar ôl y geiriau "Ardal yr Ewro" dileu gweddill pwynt 2.

4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ym pwynt 3:

Dileu pwynt 3 ac yn ei le rhoi "Yn cydnabod fod sefydlu arian sengl i Ewrop yn dilyn agenda wleidyddol, ac na fyddai'n cynnig unrhyw fanteision i economi Cymru na'r DU."

5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Dileu pwynt 4 ac yn ei le rhoi "Yn credu y byddai hanes ansefydlog yr Ewro yn erbyn prif ariannoedd y byd yn esgor ar ansicrwydd mawr i fusnesau Cymru a Phrydain."

6. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) - *Tynnwyd ynol*

Dileu pwynt 4 ac yn ei le rhoi "Yn nodi'r angen am bolisi rhanbarthol cadarn i ymateb i anghyfartaleddau rhanbarthol yn Ardal yr Ewro".

7. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe) - *Tynnwyd ynol*

Dileu Pwynt 5 ac yn ei le rhoi "Yn credu na ddylid cynnal refferendwm ynghylch ymuno â'r Ewro ar yr un dyddiad ag etholiadau'r Cynulliad yn 2003".

8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Ym pwynt 5:

Dileu'r geiriau "sicrwydd na chynhelir" ac ychwanegu "buan" ar ôl y gair "refferendwm". Ar ôl y

gair "Ewro", ychwanegu ",y gellid ei gynnal".

Eitem 7

Dadl Fer:

NDM914 Mick Bates (Sir Drefaldwyn); Yr Ewro – mae'n bryd cael refferendwm

Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

2.00pm ddydd Mawrth, 15 Ionawr 2002

E P Silk

Clerc y Cynulliad